**Adran ddiogelwch**

6 Rhagfyr 2019

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 11 Tachwedd, pan wnaethoch ofyn am y wybodaeth ganlynol:

*Annwyl Gynulliad Cenedlaethol Cymru,*

*A allwch chi ddarparu'r wybodaeth ganlynol am adran ddiogelwch y Cynulliad?*

*a) Swydd-ddisgrifiad / Manyleb y person ar gyfer pob rôl yn yr adran;*
*b) Arwyddnodau swydd/gradd ar gyfer pob gradd y mae staff mewn lifrau yn eu gwisgo*
*c) Manylion y raddfa gyflog ar gyfer pob gradd yn yr adran, gan gynnwys unrhyw daliadau estynedig (lwfans shifftiau, cyfradd nos, cyfradd goramser, tâl swyddog cymorth cyntaf ac ati)*
*ch) Cyfanswm yr aelodau staff a gyflogir (yn llawn a chyfrif pennau) gan yr adran*

**Gweler yr ymateb isod.**

A) Gallwn gadarnhau bod gennym y data y gofynnir amdano. Fodd bynnag, rydym o'r farn y byddai rhyddhau'r wybodaeth hon i chi yn debygol o amharu ar atal trosedd, ac yn rhoi unigolion mewn perygl. Felly, mae'r wybodaeth wedi'i heithrio o dan adran 31(1)(a) a 38(1)(b) Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae manylion pellach am y rhesymeg sydd y tu ôl i'r casgliad hwn a'r ffordd y cymhwysir yr eithriadau hyn ar gael yn yr atodiad i'r llythyr hwn.
B) Nid yw staff diogelwch Comisiwn y Cynulliad yn gwisgo arwyddnodau. Fodd bynnag, mae arweinwyr tîm yn gwisgo bathodynnau pin.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru
Information-request@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

C) Amlinellir graddfeydd cyflog a chyfraddau cyflog eraill isod. Caiff graddfeydd cyflog wedi'u diweddaru eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd ar wefan y Cynulliad, sydd ar gael yn y ddolen isod:

https://www.cynulliad.cymru/cy/gethome/working/recruitment/Pages/pay-scales.aspx

| **Graddfa** | **Swydd** | **Pwynt** | **Cyflog blynyddol** |
|---|---|---|---|
| Cymorth Tîm | Swyddog Diogelwch | 1 | 19,314 |
| | | 2 | 21,164 |
| | | 3 | 23,013 |
| M3 - EO | Arweinydd y Tîm Diogelwch | 1 | 24,164 |
| | | 2 | 24,984 |
| | | 3 | 26,084 |
| | | 4 | 28,999 |
| M2 - HEO | | 1 | 31,046 |
| | | 2 | 32,685 |
| | | 3 | 34,303 |
| | | 4 | 37,647 |
| M1 - SEO | Dirprwy Bennaeth | 1 | 39,739 |
| | | 2 | 41,448 |
| | | 3 | 43,158 |
| | | 4 | 47,626 |
| E2 – G7 | Pennaeth y Gwasanaeth Diogelwch | 1 | 51,447 |
| | | 2 | 53,668 |
| | | 3 | 55,891 |
| | | 4 | 61,686 |

| **Diwrnodau** | **Cyfraddau goramser** |
|---|---|
| Llun - Gwener | 1.50 |
| Sadwrn-Sul-Gwyliau Cyhoeddus | 2.00 |
| **Amseroedd cyflog estynedig gyda’r nos** | **Cyfraddau estynedig** |
| 20:00 - 23:00 | 25 y cant |
| 23:00 - 06:00 | 33 y cant |
| **Lwfans shifftiau nos:** | **£5,500 y flwyddyn** |

CH) Gallwn gadarnhau bod gennym y data y gofynnir amdano. Fodd bynnag, rydym o'r farn y byddai rhyddhau'r wybodaeth hon i chi yn debygol o amharu ar atal trosedd, ac yn rhoi unigolion mewn perygl. Felly, mae'r wybodaeth wedi'i heithrio o dan adran 31(1)(a) a 38(1)(b) Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae manylion pellach am y rhesymeg sydd y tu ôl i'r casgliad hwn a’r ffordd y cymhwysir yr eithriadau hyn ar gael yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Cynulliad wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru neu yn ysgrifenedig at
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

## Atodiad

### Adran 31

Mae Adran 31 yn ddarostyngedig i brawf rhagfarn. Mae hyn yn golygu y gellir cadw gwybodaeth yn ôl dim ond os byddai'n niweidio, neu'n debygol o niweidio, un o'r gweithgareddau a restrir yn naill ai is-adran (1) neu (2). Rhestrir "atal neu ganfod trosedd" fel gweithgaredd yn is-adran (1)(a).

Mae'r prawf rhagfarn yn cynnwys nifer o gamau:

- Rhaid i un o'r buddiannau gorfodi'r gyfraith a ddiogelir gan adran 31 gael ei niweidio gan y datgeliad;
- Rhaid i'r rhagfarn a honnir fod yn real, yn wirioneddol neu yn sylweddol. Felly, os oedd y niwed yn ddibwys yn unig, ni fyddai'r eithriad yn berthnasol;
- Rhaid i'r awdurdod cyhoeddus allu dangos bod cysylltiad rhwng y datgeliad a'r niwed a honnwyd;
- Yna mae'n rhaid i'r awdurdod cyhoeddus benderfynu beth yw'r tebygolrwydd y bydd y niwed yn digwydd mewn gwirionedd (hynny yw, a fyddai'n digwydd, neu a fyddai'n debygol o ddigwydd yn unig).

Po fwyaf sicr yw'r niwed o ddigwydd, y mwyaf pwysig ydyw wrth ystyried budd y cyhoedd. Yn y cyd-destun hwn, mae'r term "byddai niwed yn digwydd" yn golygu bod yn rhaid iddo fod yn fwy tebygol na pheidio y byddai'r rhagfarn yn digwydd. Mae "byddai'n debygol o niweidio" yn brawf is. Y naill ffordd neu'r llall, rhaid bod risg wirioneddol a sylweddol.

Mae Adran 31(1)(a) yn cwmpasu pob agwedd ar ganfod ac atal troseddau. Gellir defnyddio'r eithriad hwn i gadw gwybodaeth yn ôl a fyddai'n gwneud unrhyw un, gan gynnwys yr awdurdod cyhoeddus ei hun, yn fwy agored i brofi trosedd. Mae hyn yn cynnwys datgelu ei weithdrefnau diogelwch, ei strwythur a'i drefniadau ei hun, fel y fanyleb ar gyfer pob rôl ddiogelwch a maint yr adran ddiogelwch.

Nid yw'r prawf rhagfarn yn gyfyngedig i'r niwed a achosir gan y wybodaeth y gofynnwyd amdani ar ei phen ei hun. Gellir ystyried unrhyw niwed sy'n debygol o godi pe bai'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn cael ei rhoi ynghyd â gwybodaeth arall. Mae hefyd yn briodol ystyried y gynsail y gellid ei gosod ar gyfer ceisiadau yn y dyfodol trwy ddatgelu gwybodaeth am ein trefniadau diogelwch.

Ein barn ni, ar ôl ystyried yr effaith y gallai datgelu ei chael ar uniondeb y Cynulliad a'i ystad, yw y byddai datgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn peryglu diogelwch y Cynulliad, neu yn debygol o wneud hynny ac felly'r rheini sy'n gweithio ar ystad y Cynulliad ac yn ymweld ag ef. Byddai hyn yn debygol o amharu ar atal trosedd, neu'n debygol o arwain at wneud hynny.

Yna, aethom ymlaen i ystyried y prawf budd y cyhoedd. Yn rhan o'r prawf hwn, mae angen cydbwyso diogelwch y Cynulliad a'i ystad yn erbyn budd y cyhoedd o ran dwyn Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gyfrif.

Mae budd amlwg i'r cyhoedd o ran amddiffyn cymdeithas rhag effaith trosedd. Mae budd amlwg hefyd i'r cyhoedd fod y Comisiwn yn dryloyw yn ei waith er mwyn gallu ei ddwyn i gyfrif.

Po fwyaf yw'r potensial y bydd datgeliad yn arwain at droseddu, y mwyaf yw budd y cyhoedd o ran cynnal yr eithriad. Gall sefydliadau ac unigolion ddioddef trosedd, ond mae amddiffyn unigolion rhag effeithiau trosedd yn fwy o fater o fudd y cyhoedd. Trwy ddatgelu gwybodaeth a allai amlygu gwendidau yn nhrefniadau diogelwch ystâd y Cynulliad, byddai unigolion sy'n gweithio ar ystad y Cynulliad ac yn ymweld ag ef mewn perygl uwch o ddioddef trosedd.

Yn yr achos hwn, rydym o'r farn nad yw budd y cyhoedd o blaid datgelu yn gorbwyso'r angen i ddiogelu uniondeb y trefniadau diogelwch sydd ar waith er mwyn diogelu'r Cynulliad a'i ystad, a'r rheini sy'n gweithio ar yr ystad ac yn ymweld â hi.

**Adran 38**

Mae adran 38(1)(b) yn canolbwyntio ar wybodaeth a allai beri risg pe bai'n cael ei datgelu. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a allai arwain at beryglu diogelwch staff, ymwelwyr ac unigolion eraill ar ystad y Cynulliad, neu arwain at ddatgelu pwy yw'r swyddogion diogelwch cudd.

Mae Adran 38 yn ddarostyngedig i brawf peryglu. Felly, rhaid i ni fod yn fodlon y byddai'r perygl yn deillio o ddatgelu'r wybodaeth. Mae peryglu diogelwch fel arfer yn gysylltiedig ag amddiffyn unigolion.

Mae rhai pobl neu grwpiau mewn cymdeithas yn arbennig o agored i niwed, ac efallai y bydd eu diogelwch yn cael ei beryglu'n haws na phobl eraill. Mae

hyn yn cynnwys ffigurau cyhoeddus, fel Aelodau'r Cynulliad, y mae'n ofynnol iddynt fynegi eu barn wleidyddol yn gyhoeddus. Gall hyn achosi iddynt wrthdaro ag unigolion neu grwpiau a allai fod â safbwyntiau gwahanol a cheisio achosi niwed iddyn nhw a'r rhai o'u cwmpas o ganlyniad i hynny.

Trwy ddatgelu gwybodaeth ynghylch y strwythur a’r trefniadau diogelwch sydd ar waith yn y Cynulliad, mae hyn yn cynyddu’r risg y bydd grwpiau ac unigolion yn amlygu gwendidau yn nhrefniadau diogelwch y Cynulliad, sydd felly’n rhoi’r rheini sy’n gweithio ar ystad y Cynulliad ac yn ymweld â hi mewn mwy o berygl.

Yna, aethom ymlaen i ystyried y prawf budd y cyhoedd. Yn rhan o’r prawf hwn, mae angen cydbwyso’r risgiau i iechyd a diogelwch unigolyn neu grŵp yn erbyn budd y cyhoedd o ran dwyn Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gyfrif. Rhaid ystyried y prawf hwn fesul achos.

Mae budd amlwg i'r cyhoedd fod y Comisiwn yn dryloyw yn ei waith er mwyn gallu ei ddwyn i gyfrif. Fodd bynnag, mae budd cryf i’r cyhoedd hefyd ar gyfer dal gwybodaeth yn ôl a fyddai’n tanseilio’r system ddiogelwch sydd ar waith i amddiffyn diogelwch grwpiau ac unigolion, yn ogystal â chaniatáu i unigolion adnabyddus, fel ffigurau cyhoeddus, gael eu targedu.

Yn yr achos hwn, rydym o’r farn nad yw budd y cyhoedd o blaid datgelu yn gorbwyso’r angen i ddiogelu uniondeb y trefniadau diogelwch sydd ar waith er mwyn diogelu’r Cynulliad a’i ystad, a’r rheini sy'n gweithio ar yr ystad ac yn ymweld â hi.